Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cefneithin

**Heol Y Parc**
**Cefneithin**
**Llanelli**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA14 7DE**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cefneithin

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Cefneithin |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Gâr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 95 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 74 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 10.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 14.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 58.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/07/2023 |
| Pennaeth gweithredol ers Medi 2021 | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

[Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae ethos hapus a chyfeillgar yn bodoli yn Ysgol Cefneithin. Mae disgyblion, staff a rhieni yn ymfalchïo yn naws gartrefol a chynhwysol yr ysgol. Mae'r weledigaeth o osod 'gwreiddiau cadarn – sylfaen i'r dyfodol' yn adlewyrchu ethos yr ysgol i annog disgyblion i fyfyrio ar eu gwerthoedd ac i weithredu arnynt. Mae pawb yn cael eu parchu ac maent yn ofalgar iawn o'i gilydd a'r gymuned. O ganlyniad, mae agwedd y disgyblion at eu dysgu yn gryfder ac mae eu hymddygiad yn rhagorol.

Nodwedd gref o'r ysgol yw natur gyfeillgar y disgyblion. Maent yn ymfalchïo yn eu hiaith a'u treftadaeth leol ac yn feddylgar am eraill. Maent yn sgwrsio yn hollol naturiol ac yn dangos diddordeb yn y byd o'u cwmpas.

Mae llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Er hyn, nid ydynt bob tro'n sicrhau cyfleoedd cyson i ddatblygu ac ymestyn medrau ysgrifennu estynedig a medrau rhifedd y disgyblion yn ddigon adeiladol dros amser. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Maent yn sicrhau cyflymder addas i'r gweithgareddau a darparu profiadau dysgu sydd yn ysgogol. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae arweinwyr yr ysgol yn cymryd rhan ragweithiol ym mhrosesau gwella'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r blaenoriaethau gwella. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth gweithredol wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol ac wedi sicrhau bod arweinyddiaeth yn cael ei dosrannu. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau yma bob tro'n ddigon clir ac amserol. Mae gan y pennaeth gweithredol weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae hi'n rhannu ei gweledigaeth yn effeithiol gyda phawb yng nghymuned yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod blaenoriaethau'r ysgol yn glir a phenodol er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella yn amserol

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig a'u medrau rhifedd yn adeiladol

A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda medrau sy'n cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoedran, oni bai am eu medrau yn y Gymraeg. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu o ystyried eu man cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar gyfraniadau oedolion a chyfoedion. Er bod y mwyafrif o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y gallu i siarad Cymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gynnar iawn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio geirfa bwrpasol wrth gyfathrebu ag eraill wrth ddisgrifio cylch bywyd pili pala yn llwyddiannus. Maent yn sgwrsio am eu gwaith a phethau sydd o ddiddordeb iddynt gyda brwdfrydedd naturiol. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgwrsio'n  hyderus mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Maent yn darllen gyda mynegiant priodol, gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Maent yn mwynhau gwrando ar storïau ac yn medru trafod cynnwys storïau dosbarth gyda brwdfrydedd. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau darllen yn briodol ac yn trafod cynnwys testun yn synhwyrol ac aeddfed.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau creu marciau ac yn ffurfio llythrennau a geiriau syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n rhydd ac yn cyflwyno eu gwaith yn drefnus a chlir. Maent yn ysgrifennu at wahanol ddibenion yn effeithiol gan ddefnyddio ffurf a geirfa briodol, er enghraifft wrth ddwyn i gof eu hymweliad â'r Gerddi Botaneg.

Wrth symud drwy'r ysgol, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn trosglwyddo eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus o un iaith i'r llall ac yn dechrau ysgrifennu darnau estynedig o waith yn effeithiol. Ym Mlynyddoedd 3 a 4 mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n bwrpasol at nifer o ddibenion, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur dychmygol yn seiliedig ar hanes Barti Ddu a chreu podlediad yn sgil eu hymweliad â Llyn Llech Owain. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n effeithiol at wahanol bwrpasau, er enghraifft wrth ddwyn perswâd ar bobl i ymweld â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er hynny, nid ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ysgrifennu darnau estynedig ac i fireinio a gwella eu gwaith yn ddigon rheolaidd.

Mae medrau digidol disgyblion yn datblygu'n briodol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio dyfeisiau digidol yn bwrpasol i atgyfnerthu eu medrau llythrennedd a rhifedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn medru creu graff bloc o drychfilod gardd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r we i ymchwilio'n annibynnol er mwyn dod o hyd i wybodaeth ar amrywiaeth o destunau. Fodd bynnag, ychydig o ddisgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth effeithiol o sut i drin data neu greu taenlenni yn annibynnol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn briodol ar draws yr ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol, er enghraifft drwy gyfri coesau trychfilod a thrwy ganu caneuon rhif yn hyderus. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth drafod a llunio cymesuredd pili pala ac wrth roi cyfarwyddiadau i ffrind ddarganfod y trychfil. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio eu medrau rhif wrth luosi a rhannu gyda 10 a 100. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i drefnu gwibdaith i Ben y Fan yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw eu medrau rhifedd yn adeiladu’n systematig ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth flaenorol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu.

Mae’r rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, er enghraifft drwy efelychu arddull arlunwyr enwog a lleol yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau ac arddulliau yn fedrus i gynhyrchu gwaith celf drawiadol.

Mae bron bob disgybl yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ar draws yr ysgol. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a gwersi sy’n hybu eu hiechyd a’u lles yn effeithiol, er enghraifft yn ystod sesiynau ioga a ffitrwydd.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae ethos cyfeillgar a chartrefol yn bodoli yn yr ysgol. Mae disgyblion yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais a pharchus. Ar draws yr ysgol, maent yn groesawgar ac yn fodlon trafod agweddau o fywyd ysgol gydag oedolion yn fyrlymus a chyffrous. Un o agweddau nodedig yr ysgol yw’r ffordd mae’r disgyblion yn sgwrsio’n naturiol ag oedolion mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel o fewn naws gynhwysol yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach o ran bwyd a diod. Er enghraifft, mae’r disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio’r siop ffrwythau’n ddyddiol ac yn annibynnol. Mae disgyblion yn cadw’n heini yn y dosbarth a thu hwnt, er enghraifft drwy ddawnsio, cymryd rhan mewn gemau buarth, ioga a chynnal ‘milltir y dydd’. Mae’r ysgol yn defnyddio’r gymuned leol er mwyn darparu cyfleoedd ychwanegol i’r disgyblion ddysgu am bwysigrwydd cadw’n iach ac ymarfer y corff, er enghraifft sesiynau gyda chlybiau chwaraeon lleol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu hannog i ofalu am eu lles emosiynol ac yn cael cyfleoedd pwrpasol i drafod eu teimladau yn ddyddiol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn mynegi eu teimladau ar siart dosbarth a’r disgyblion hŷn yn gwneud defnydd o declyn digidol ar gyfer rhannu eu teimladau’n annibynnol ac yn breifat. Mae bron bob disgybl yn ymwybodol bod staff ar gael i drafod neu rannu cyngor a chynhaliaeth unrhyw bryd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu fel dinasyddion moesegol a gwybodus drwy ddangos ymwybyddiaeth gref o beth yw bod yn ffrind da a sut i helpu eraill. Mae’r disgyblion yn dangos empathi tuag at eraill ac maent yn awyddus i roi cymorth i’r rhai sydd mewn angen, er enghraifft trwy drefnu casglu nwyddau i helpu pobl

Wcráin. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar a byd eang. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gynyddol o hawliau plant ac maent yn dechrau lledaenu'r negeseuon ar draws yr ysgol. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n ddiogel ar-lein trwy wersi priodol ac wrth dderbyn cyngor gan yr heddwas lleol.

Mae aelodau'r cynghorau ysgol, er enghraifft, y cyngor ysgol, y cyngor eco a'r criw Cymraeg, yn cymryd eu rolau o ddifri ac yn awyddus i gyfrannu tuag at welliannau yn yr ysgol. Maent yn dechrau cyfrannu'n werthfawr at waith yr ysgol. Er enghraifft, drwy lunio poster ar y cyd ag artist lleol a chynhyrchu fideo i'r gymuned leol er mwyn eu hannog i leihau baw ci ar y cae chwarae lleol. Yn ogystal, mae gan y llysgenhadon chwaraeon effaith gadarnhaol ar y disgyblion ieuengaf yn ystod amseroedd chwarae wrth baratoi a chynnal sesiynau gemau hwyl ar y cyd. O ganlyniad i weithgarwch y cynghorau, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn eu hystyried mewn penderfyniadau ac yn gwrando ar eu barn, er enghraifft drwy ganiatáu i'r disgyblion rhedeg y siop ffrwythau.

Mae bron bob un o ddisgyblion ieuengaf yn ymroi i'w tasgau a'u heriau'n frwdfrydig sy'n eu hannog i weithio'n annibynnol ac, ar y cyfan, maent yn dyfalbarhau i gwblhau'r gwaith. Er hynny, mae llai o gyfleoedd i gymhwyso medrau sylfaenol disgyblion ar frig yr ysgol a darparu cyfleoedd i'r disgyblion wneud dewisiadau eu hunain wrth gofnodi a chyflwyno gwaith.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o werthoedd a systemau gwobrwyo'r ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Maent yn canolbwyntio yn effeithiol wrth weithio ac yn cyd-chwarae'n hapus yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae mwyafrif y disgyblion yn trafod eu gwaith a dysgu blaenorol yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn darllen dros eu gwaith ac yn ymateb yn addas i adborth ac yn gwella rhai agweddau o'u gwaith ac yn deall, ar y cyfan, beth yw'r cam nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion ymateb mewn amrywiol ffyrdd er mwyn i'r staff asesu eu dysgu yn gyson. Mae'r rhan fwyaf yn ymgymryd â'u tasgau'n gydwybodol gan ganolbwyntio'n dda am gyfnodau penodol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan holl staff yr ysgol berthynas waith dda â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ofalgar a chynhwysol ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn gwneud defnydd gwerthfawr o'u staff cymorth, ac ar y cyd, maent yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol.

Mae staff wedi dechrau cynllunio'n fwriadus er mwyn bodloni gofynion y cwricwlwm newydd i Gymru. Mae'r newid yn y cynllunio ar draws yr ysgol wedi arwain at gynyddu ehangder y profiadau i ddisgyblion trwy roi ystyriaeth dda i'w barn a'u diddordebau. Mae'r dull cynllunio newydd wedi ehangu ar y cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau a chymryd perchnogaeth dros eu dysgu. Er enghraifft, cânt gyfleoedd gwerthfawr ar ddechrau bob tymor i gyfrannu'n gadarnhaol at themâu ysgogol fel 'Tir a Môr' a 'Trychfilod' sy'n hybu chwilfrydedd ac ymgysylltiad disgyblion â'u dysgu yn llwyddiannus. Ar y cyfan, mae profiadau dysgu'n galluogi llawer o'r disgyblion i gaffael y medrau angenrheidiol mewn gwersi penodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddatblygu a

chymhwyso eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig yn gyson ac adeiladol wrth symud drwy'r ysgol.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau a phrofiadau perthnasol sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i chymuned yn llwyddiannus. Darperir ystod o ymweliadau amrywiol â mannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft ymweliad â'r Gerddi Botaneg er mwyn dysgu am drychfilod a chynefinoedd ac ymweliad â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Maent hefyd yn defnyddio ymwelwyr i'r ysgol yn fwriadus i gynorthwyo a datblygu dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, drwy ddysgu am fywyd a gwaith glöwr fel rhan o'u hymchwil i hanes y diwydiant glo a streic y glowyr yn lleol. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth gan ennyn diddordeb y disgyblion yn yr hyn y maent yn ei ddysgu yn effeithiol.

Mae pob aelod o staff yn fodelau iaith gwerthfawr ac mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg yn naturiol ac effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llafar y rhan fwyaf o'r disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog hyderus. Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r elfen Gymreig ei hyrwyddo'n llwyddiannus a rhoddir lle blaenllaw i ddisgyblion ddysgu am hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru. Maent yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion astudio cymeriadau lleol a chenedlaethol enwog fel Owain Glyndŵr.

Mae egwyddorion y dysgu sylfaen wedi sefydlu'n gadarn ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol. Mae'r staff yn datblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt trwy weithgareddau a heriau yn y dosbarthiadau a'r ardal allanol. Mae hyn yn hyrwyddo dysgwyr annibynnol hyderus. Mae disgyblion hŷn yr ysgol yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau annibynnol yn fwyfwy mewn gwersi ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd digonol i'w helpu i wneud dewisiadau rhagweithiol ynglŷn â'r ffordd maent yn dysgu.

Mae athrawon yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau diddorol i ennyn diddordeb disgyblion. Ar y cyfan, maent yn atgoffa'r disgyblion o'u dysgu blaenorol yn addas ac yn holi disgyblion yn fedrus. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn sicrhau cyflymder da i'w gwersi. Mae llawer o staff yn annog disgyblion trwy ganmol eu cyfraniadau a'u syniadau. Maent yn cefnogi disgyblion i ddefnyddio strategaethau perthnasol i fyfyrio a gwella safon eu gwaith ac i beidio ag ofni gwneud camgymeriadau. Er enghraifft, mae disgyblion hynaf yr ysgol yn defnyddio strategaethau fel 'Tri cyn fi' sy'n gofyn i ddisgyblion ymchwilio eu hunain am ddatrysiad a thrafod gydag eraill i'w helpu i ddyfalbarhau â thasgau a gwella'u gwaith.

Yn gyffredinol, mae athrawon yn rhoi adborth priodol sy'n helpu disgyblion i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda mewn gwersi. Fodd bynnag, ar draws yr ysgol, nid yw disgyblion bob tro'n cael cyfleoedd digonol i wella a mireinio cynnwys ac ansawdd eu gwaith yn dilyn adborth.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a hapus sy'n hyrwyddo ymddygiad da a chwrteisi gan bob disgybl. Mae'r holl staff yn ymrwymo i sicrhau bod gwerthoedd, ynghyd â lles emosiynol disgyblion, yn allweddol i'w gwaith. Mae perthnasoedd cadarnhaol

rhwng staff a disgyblion ar draws yr ysgol sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu hapusrwydd a'u lles. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau cadarnhaol bron bob disgybl at fywyd yr ysgol.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda iawn gan drin pob disgybl yn deg a chyda pharch. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgysylltu'n barod â'u dysgu ac yn gwneud cynnydd da ar draws y cwricwlwm. Maent yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol bron bob disgybl yn llwyddiannus drwy drawstoriad o weithgareddau pwrpasol. Er enghraifft, drwy gynnal sesiynau arbenigol a chyd-greu 'rap' gyda'r disgyblion i godi ymwybyddiaeth o wrth-fwlio.

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar waith sy'n cael effaith gadarnhaol ar gefnogi disgyblion ag ADY. Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cyflawni ei rôl yn hynod o dda ac yn cefnogi'r athrawon yn drylwyr i greu darpariaeth gyffredinol ar gyfer y disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol. Mae gan yr ysgol ystod o ddarpariaeth gynhwysfawr sy'n cael ei defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio cefnogaeth er mwyn sicrhau trefn, tegwch, adnoddau a chysondeb i'r disgyblion. Mae staff yn gosod targedau personol buddiol ar gyfer y disgyblion hyn ac yn gwerthuso'r cynnydd yn rheolaidd er mwyn adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae'r CADY yn cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn derbyn arweiniad a chyngor arbenigol i gefnogi'r disgyblion sy'n derbyn cefnogaeth ychwanegol.

Un o gryfderau'r ysgol yw sut mae'r staff yn hyrwyddo a datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hunaniaeth, treftadaeth a diwylliant. Mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd hynod fuddiol i ddathlu eu Cymreictod ac i deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol. Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ymweld â lleoedd yn y gymuned leol yn gyson. Er enghraifft, drwy ddefnyddio Llyn Llech Owain fel sbardun i recordio a chreu stori gydag artist lleol. Mae'r ysgol yn trefnu ymweliadau cyson i'r gymuned leol, er enghraifft neuadd y pentref, capeli a'r ysgol uwchradd, ac yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer croesawu ymwelwyr i'r ysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm.

Mae agweddau ysbrydol a moesol y disgyblion yn cael eu hyrwyddo'n rheolaidd drwy wasanaethau addoli ar y cyd. Maent yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau dosbarth yn briodol. Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn ar faterion cyfoes, er enghraifft drwy godi arian at elusen i helpu pobl Wcráin a thrwy drafod a datblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant. Serch hynny, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth fwriadus am amrywiaeth a chymunedau amlddiwylliannol yng Nghymru.

Mae'r ysgol yn datblygu cyfleoedd addas i ddisgyblion gymryd rhan mewn penderfyniadau ar lefel ysgol drwy aelodaeth y cynghorau ysgol ac o fewn gwersi yn y dosbarth. Er enghraifft, drwy gydweithio â swyddogion yr awdurdod lleol i fonitro a lleihau cyflymder ceir y tu allan i'r ysgol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd addas i fynegi barn am sut i wella gwahanol agweddau o'r ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd amrywiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn perfformiadau a digwyddiadau. Er enghraifft, drwy gystadlu mewn cystadlaethau chwaraeon ac

Eisteddfodau lleol i fagu hunanhyder a datblygu creadigrwydd y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn effeithiol ac nid yw’r trefniadau’n peri pryder. Mae trefn i adrodd pryderon diogelu am ddisgyblion yn gadarn ac mae'r staff yn cydweithio ag asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy’n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig ‘gwreiddiau cadarn - sylfaen y dyfodol’ i’r disgyblion ddatblygu eu lles a’u medrau sylfaenol. Mae’r pennaeth gweithredol wedi cydweithio’n llwyddiannus â rhanddeiliaid i greu'r weledigaeth gytûn sy’n seiliedig ar gefnogi disgyblion i fod yn ddysgwyr parchus, caredig sy’n ‘gwneud eu gorau glas’. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy’n treiddio ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mae trefniadau i gefnogi, datblygu a dosbarthu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn datblygu’n  briodol. O fewn cyfnod byr, mae’r pennaeth gweithredol wedi datblygu tîm effeithiol o staff drwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn addas. Maent yn gwbl glir am eu rolau a’u cyfrifoldebau ac yn ymroi’n llwyr i werthoedd yr ysgol gan hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng yr holl aelodau staff. O ganlyniad, mae llawer o staff yn awyddus i ddatblygu’r ddarpariaeth i wella profiadau, cynnydd a medrau’r disgyblion, er enghraifft drwy ddatblygu'r ardal allanol i gefnogi annibyniaeth y disgyblion ieuengaf.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cefnogi arweinwyr a staff yn hynod effeithiol. Maent yn ymgymryd yn drwyadl ag amrywiaeth o weithgareddau monitro a gwerthuso perthnasol. Er enghraifft, mae aelodau gweithgar o’r is-banel cwricwlwm yn gyfrifol am ysgrifennu a monitro'r cynllun datblygu ysgol ac yn cydweithio â’r awdurdod addysg leol i werthuso cynnydd yn safonau dysgu ac addysgu. Maent yn rhannu effaith y gweithredoedd gyda’r corff llawn yn rheolaidd drwy adroddiadau gwella manwl. O ganlyniad, mae gan lywodraethwyr ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau’r ysgol ynghyd â’r blaenoriaethau ar gyfer gwelliant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau cenedlaethol, ac maent yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau cynhwysfawr i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn defnyddio eu profiadau o’u hymweliadau cyson i herio a chefnogi’r arweinwyr gyda’u gwaith.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli adnoddau ariannol ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ceisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn addas er mwyn gwella safonau cyrhaeddiad a lles disgyblion drwy sicrhau bod holl weithgareddau’r ysgol yn hygyrch i bob disgybl. Yn ogystal, maent wedi cydweithio â phartneriaid allanol er mwyn lleihau’r baich ariannol ar deuluoedd drwy gyfrannu’n rheolaidd tuag at fanc bwyd lleol yn dilyn gwasanaeth diolchgarwch yn y capel lleol.

Mae perthynas yr ysgol â’r rhieni yn gryfder ac mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion, yr ysgol a’i chymuned yn arbennig o dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi medrau'r disgyblion. Er enghraifft, drwy

gynnal gweithdai i rieni ynglŷn â sut i gefnogi medrau llafar, darllen a rhifedd y disgyblion adref a chynnig pecynnau gwaith i’w cefnogi.

Mae arweinwyr yn datblygu a hyrwyddo diwylliant o hunanwella cyson. Mae gan arweinwyr amserlen briodol ar gyfer gwerthuso’r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Maent yn ystyried tystiolaeth sy’n dangos effaith ar gynnydd y disgyblion yn erbyn eu blaenoriaethau cyfredol. Yn ogystal, mae arweinwyr cwricwlwm yn rhoi adborth amserol yn dilyn craffu ar lyfrau disgyblion. Golyga hyn fod arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella'r ysgol yn dda ac yn ymateb yn brydlon iddynt. Er enghraifft, mae athrawon yn medru adnabod agweddau sydd angen sylw pan maent yn codi, fel dirywiad mewn ansawdd sillafu'r disgyblion a sicrhau eu bod yn nodi camau gweithredu yn glir yn y cynlluniau wythnosol dilynol. Fodd bynnag, nid yw blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol bob amser yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw arweinwyr a staff yn mynd i’r afael ag ychydig o agweddau i’w gwella yn ddigon amserol.

Mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cadarnhaol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnig cyfleoedd buddiol iddynt ymgymryd ag ystod dda o ddysgu proffesiynol, sy’n ymateb i’w gofynion unigol a blaenoriaethau’r ysgol yn gadarn. Er enghraifft, drwy hyfforddiant darllen dan arweiniad i’r staff cyfan i’w cynorthwyo i ddatblygu gwybodaeth a medrau meddwl y disgyblion. Mae hyn yn datblygu eu medrau yn effeithiol ac yn unol â’r trefniadau rheoli perfformiad staff. Caiff y cyfleoedd hyn eu darparu’n fwriadus i wella’r ddarpariaeth, sydd yn ei dro yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/09/2023